**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**
**16 Gorffennaf 2019**
**12:30 – 13:30**
**Ystafell Gynadledda D - Tŷ Hywel**

**Cadeiryddion: Suzy Davies AC a Siân Gwenllian AC**
**Ysgrifenyddiaeth: WEN Cymru**

**Yn bresennol:**
Suzy Davies AC – (cyd-gadeirydd
Siân Gwenllian AC (cyd-gadeirydd)
Catherine Fookes - WEN Cymru (siaradwr)
Claire Cunliffe - Oxfam Cymru (siaradwr)
Tina Reece - Cymorth i Fenywod
Hilary Watson - WEN Cymru (ysgrifennydd)
Isobel Mortimer - Graylings a Tím Ieuenctid NAWO
Rachel Minto - Swyddfa Llywodraethu Cymru
Catherine Iannucci - Staff cymorth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Nia Thomas – intern y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Lynne Tedik - Soroptimist Rhyngwladol
Debbie Shaffer - FTWW (trwy Skype/Ffôn)

**Ymddiheuriadau:**
Angela Burns AC
Jayne Bryant AC
Llyr Gruffydd AC
Nancy Cavill - staff cymorth AC
Rhian Connick - NFWI
Polly Winn – Chwarae Teg

## 1. Croeso gan y Cadeiryddion

Croesawodd y cadeiryddion fynychwyr y cyfarfod a chafwyd cyflwyniad bord gron. Ymunodd Suzy Davies AC gyda Siân Gwenllian AC fel cyd-gadeirydd yn dilyn ymadawiad Jane Hutt AC fel cyd-gadeirydd oherwydd iddi ymuno â Llywodraeth Cymru fel Gweinidog. Mae’r tabl ariannol ar gyfer y flwyddyn isod.

## 2. Cerdyn Sgorio Ffeministaidd ar gyfer Llywodraeth Cymru: Catherine Fookes, Cyfarwyddwr WEN Cymru; Claire Cunliffe, Rheolwr Ymgyrchoedd ac Eiriolaeth yn Oxfam Cymru, Tina Reece, Pennaeth Ymgysylltu Cymorth Menywod Cymru

Cyflwynodd Catherine Fookes (CF) y Cerdyn Sgorio Ffeministaidd, sy'n sgorio Llywodraeth Cymru ar gyflawni cydraddoldeb rhywiol. Mae'n cydnabod eu bwriadau cryf ond yn tynnu sylw at feysydd i weithredu ymhellach ynddynt, yn enwedig o ran cyllido ar draws 6 maes y cerdyn sgorio. Ciplun mewn amser yw'r cerdyn sgorio (ac nid adroddiad manwl, fel yr Adolygiad Cyflym ar Gydraddoldeb Rhyw – a fydd ar gael yn fuan). Mae CF yn cydnabod bod y system sgorio goleuadau traffig gyffredinol yn cuddio rhywfaint o gynnydd yn y 6 maes. Ysgrifennwyd yr adroddiad mewn ymgynghoriad â'r sector ac roedd y sgorio ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys cyllido a deddfwriaeth.

### i. Menywod a Chynrychiolaeth Gyfartal ac Arweinyddiaeth: Ambr

Cydnabuwyd mai ‘gwyrdd’ oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru; roedd cynghorau'n 'goch' ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae argymhellion yn yr adroddiad ar gyfer cwotâu rhyw 50:50 (deddfwriaethol), Awdurdodau Lleol i gasglu data amrywiaeth ar gyfer pob ymgeisydd sy’n sefyll, gan sicrhau cynnydd wrth symud ymlaen.

### ii. Menywod a Chyfrifoldebau Gofalu: Ambr

Trafodwyd bod hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ofal plant. Bu cynnydd da o ran gofal plant ond nid i fenywod nad ydynt yn gweithio ac nid yw'n ddefnyddiol i'r rheini sydd am ddod o hyd i waith. Mae'r adroddiad yn argymell gofal plant o 6 mis ymlaen, ac mae hefyd yn sô am ofal plant i blant anabl a gofal seibiant i ofalwyr.

### iii. Rhoi terfyn ar drais yn erbyn Menywod a Merched Ifanc: Coch

Er bod potensial i’r Ddeddf VAWDASV dorri tir newydd, canfuwyd bod diffyg gweithredu a chyllido. Ers y Ddeddf, mae o leiaf 31 o fenywod yng Nghymru wedi cael eu lladd gan eu partneriaid neu gyn-bartneriaid. Cafwyd trafodaeth ar oblygiadau mesurau cyni a chymhlethdod cynyddol yr angen mewn perthynas â FGM, trais rhywiol a cham-drin domestig. Er nad yw lefelau cefnogaeth o reidrwydd wedi crebachu, nid yw'r ddarpariaeth gyfredol yn ddigon i ateb y galw. Y llynedd, nid oedd modd lletya 401 o fenywod a oedd yn ceisio lloches. Mae'r cerdyn sgorio yn tynnu sylw at ddiffyg fframwaith cyllido cynaliadwy diogel ar gyfer y sector. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar ymddiriedolaethau a chyllid allanol ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod. Mae'r gwasanaethau hyn hefyd eisiau ymrwymiad i arian cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn honni eu bod yn cydymffurfio â Chonfensiwn Istanbwl - mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi mapio hyn i ddangos anghysondebau yn

yr honiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn dangos parodrwydd ond mae diffyg cyllid. Ni fydd goroeswyr yn troi at arian cyhoeddus wrth gyrchu gwasanaethau lloches ac arbenigol trwy gyllid a ddarperir gan gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau (sy'n anghynaliadwy yn y tymor hir). Mae'r sector yn galw am ymateb ar sail rhyw yn hytrach na dull niwtral o ran rhyw, un maint addas i bawb (nad yw'n briodol).

**iv. Cyfrifoldeb Byd-eang a Menywod: Ambr**

Er bod y sgôr cyffredinol yn ambr, mae rhai gwrthwynebiadau cadarnhaol, fel 'gwyrdd' o ran ceiswyr lloches a ffoaduriaid. O ran datblygu rhyngwladol mae diffyg data, er bod tystiolaeth storïol yn awgrymu ei fod yn gweithio'n dda, er bod Cymru ar ei hôl hi, er enghraifft, o'i chymharu â'r Alban. Nid yw nod byd-eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael effaith fesuradwy eto. Mae Newid Hinsawdd yn 'goch' ond pe bai'n cael ei weithredu'n dda gallai hyn gael effaith dda – mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar fenywod.

**v. Swyddi a Chydraddoldeb Cyflog i Fenywod: Coch**

Mae menywod yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth dda. Teimlwyd y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio mwy o ysgogiadau sydd ar gael iddynt, e.e. awdurdodau lleol yn cyhoeddi ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac i adrodd ar effeithiolrwydd eu cynlluniau i fynd i'r afael â'r mater.

**vi. Treth ac Effaith Cyllidebau ar Fenywod: Ambr**

Darlun cymysg - bu cynnydd o ran baich ar gartrefi incwm is. Bu rhai camau cadarnhaol. Ond mae'n ymddangos bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ddim ond yn cael eu cymhwyso ar ddiwedd proses y gyllideb. Mae'r cerdyn sgorio yn dadlau dros gyllidebu ar sail rhyw trwy gydol y broses.

## 3. Trafodaeth grŵp

Fe wnaeth y grŵp drafod cerdyn sgorio gwreiddiol Oxfam Canada, a ysbrydolodd y fersiwn Cymreig ac fe wnaeth WEN Cymru ac Oxfam Cymru drafod sut mae'r cerdyn sgorio yn cyd-fynd â gwaith eirioli ac ymgyrchu, gan gynnwys cyfarfod blaenorol gyda'r Cynghorwyr Cenedlaethol, a chyfarfodydd yn y dyfodol gyda Gweinidogion allweddol a llefarwyr y pleidiau gwleidyddol. Argymhellwyd bod y sefydliadau'n cwrdd â llefarwyr ar draws meysydd polisi ac nid dim ond y llefarwyr cydraddoldeb.

Codwyd y ffaith bod cymunedau gwledig yn cael eu gadael ar ôl o ran trais yn erbyn menywod a merched ifanc. Mae Cymorth Merched Cymru yn gweithio ar adroddiad i dynnu sylw at hyn.

Roedd 'iechyd' yn bwnc nad oedd yn cael sylw penodol yn yr adroddiad - roedd hyn yn rhannol oherwydd defnyddio Cerdyn Sgorio Canada fel model, er y gallai fersiynau o'r cerdyn sgorio yn y dyfodol gynnwys Iechyd.

## 4. Unrhyw fater arall

**Cyfarfod nesaf:** bu rhywfaint o drafod am bryd y byddai hyn - gall fod yn fis Hydref ond oherwydd bygythiad etholiad cyffredinol mae'n ansicr a fydd yn rhaid iddo symud, e.e o 17 Hydref.

Cafwyd trafodaeth am y grŵp Menywod dros Ewrop, a gafodd gyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod yn gynharach eleni. Trwy Rachel Minto ac Eleri Cubbage, bydd y cyfarfod hwn yn cael ei amsugno i'r Grŵp Trawsbleidiol trwy eitem sefydlog 'Brexit' ar agenda'r GRhG ar Fenywod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## 5. Camau i'w cymryd

1) Anfon y cerdyn sgorio at bob Comisiynydd yng Nghymru, gan gynnwys Comisiynydd Cymru, Comisiynydd y Bobl Hŷn, y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
2) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar y chwe maes, fel y Grŵp Trawsbleidiol, i dynnu sylw at yr hyn sydd angen digwydd os ydym am symud ymlaen, e.e. cyllidebu ar sail rhyw - mae angen ail-flaenoriaethu cyllidebu.
    a. Cyllidebu ar sail Rhyw - pwnc i'r grŵp
    b. Swyddi a chydraddoldeb cyflog - adrodd ar fwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn awdurdodau lleol
    c. Deddfu 50:50 cynrychiolaeth rhyw a data amrywiaeth awdurdodau lleol
    ch. Ymestyn cynnig gofal plant i bob rhiant nad yw'n gweithio a sicrhau ei fod ar gael yn gynharach
    d. Ymateb gwell i VAWDASV
    e. Argyfwng hinsawdd - eglurder gan Lywodraeth Cymru ar beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol
3) Datganiad i'r wasg: yn seiliedig ar lythyr sy'n amlinellu ein gofynion fel y GRhG.
4) Fersiynau portffolio o'r cerdyn sgorio yn y dyfodol
5) Grŵp menywod yn Ewrop i gylchredeg eu papurau.
6) Gwirio fod rhestr bostio'r GRhG wedi ymgorffori yn llawn pawb a oedd ar restr bostio Menywod yn Ewrop.
7) Eitem agenda ar gyfer y tro nesaf - Seminar/digwyddiad rhyngdestunoldeb gan rwydwaith Ewrop
8) Gwahodd Rebecca Evans AC a Hannah Johnson i'r cyfarfod nesaf ar Gyllidebu ar sail Rhyw.

ADDRESS
WEN Wales,
c/o Chwarae Teg,
Anchor Court, Keen Road,
Cardiff CF24 5JW
CONTACT
admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk
INFO
Charity Number: 1145706
Company Number: 07891533
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Atodiad A**

**Datganiad Ariannol Blynyddol**

***Dyddiad:****18 Gorffennaf 2018*
**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**
**Cyd-gadeiryddion:** Jane Hutt AC a Siân Gwenllian AC (2018); Siân Gwenllian AC a Suzy Davies AC (2019)
**Ysgrifennydd:** Hilary Watson, WEN Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau'r Grŵp | Dim | £0.00 |
| Cost yr holl nwyddau | Ni phrynwyd nwyddau | £0.00 |
| Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol | Ni chafwyd buddiannau | £0.00 |
| Unrhyw gymorth ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall | Ni chafwyd cymorth ariannol | £0.00 |
| | **Cyfanswm y gost** | £0.00 |

Atodiad ii:

# FEMINIST SCORECARD 2019

**TRACKING WELSH GOVERNMENT ACTION TO ADVANCE WOMEN'S RIGHTS AND GENDER EQUALITY**

Green – Significant Progress | Amber – Some Progress | Red – Little Progress

## WOMEN AND CARING RESPONSIBILITIES

Welsh Government has made incremental progress, but more work is needed for example, extending the Childcare offer to younger children and non-working parents and ensuring carers can access respite and reasonable breaks.

## ENDING VIOLENCE AGAINST WOMEN AND GIRLS

The Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 was ground breaking legislation, but implementation has been slow. Provision of services remains very patchy, and immediate action is needed to ring-fence sustainable funding.

## WOMEN AND EQUAL REPRESENTATION AND LEADERSHIP

Welsh Government is increasingly a strong advocate for women's leadership, demonstrating this through, for example, its gender balanced cabinet. However, legislation is needed to ensure 50:50 representation in the Assembly, and especially at local government level.

## GLOBAL RESPONSIBILITY AND WOMEN

Wales continues to show leadership through its Nation of Sanctuary approach. Further progress is needed to cement global responsibility at the heart of the Welsh Government's international strategy, and to ensure Wales meets key climate change targets – a global challenge which impacts on women disproportionately.

## JOBS AND PAY EQUALITY FOR WOMEN

Women still hold the majority of low paid jobs in Wales, and the gender pay gap persists. Welsh Government should set ambitious targets to reduce the gender pay gap and devise a framework for monitoring decent work for women.

## TAXATION AND BUDGETS IMPACT ON WOMEN

Gender neutral taxation is not the right approach – a gender positive approach is needed. Welsh Government should improve its Equality Impact Assessment process, as well as introduce gender budgeting as a priority.


ADDRESS
WEN Wales,
c/o Chwarae Teg,
Anchor Court, Keen Road,
Cardiff CF24 5JW

CONTACT
admin@wenwales.org.uk
wenwales.org.uk

INFO
Charity Number: 1145706
Company Number: 07891533

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2019

**OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO HAWLIAU MENYWOD A CHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU**

- **Gwyrdd –** Cynnydd sylweddol
- **Melyn –** Rhywfaint o gynnydd
- **Coch –** Ychydig o gynnydd

## MENYWOD A CHYFRIFOLDEBAU GOFAL

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwelliannau cynyddol, ond mae angen mwy o waith er enghraifft, ymestyn y cynnig Gofal Plant i blant iau a rhieni nad ydynt yn gweithio a sicrhau y gall gofalwyr gael mynediad i seibiannau ac egwyliau rhesymol.

## RHOI DIWEDD AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

Roedd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth arloesol, ond araf fu'r gweithredu. Mae darpariaeth gwasanaethau yn anghyson iawn, ac mae angen gweithredu ar unwaith i glustnodi cyllid cynaliadwy.

## MENYWOD AC ARWEINYDDIAETH A CHYNRYCHIOLAETH GYFARTAL

Mae Llywodraeth Cymru yn eiriolwr cryf cynyddol dros arweinyddiaeth menywod, gan ddangos hyn drwy, er enghraifft, ei chabinet cytbwys o ran y rhywiau. Fodd bynnag, mae angen deddfwriaeth i sicrhau cynrychiolaeth 50:50 yn y Cynulliad, ac yn enwedig ar lefel llywodraeth leol.

## CYFRIFOLDEB BYD-EANG A MENYWOD

Mae Cymru yn parhau i ddangos arweinyddiaeth trwy ei dull Cenedl o Noddfa. Mae angen gwneud rhagor o gynnydd i gadarnhau'r cyfrifoldeb byd-eang sydd wrth wraidd strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, ac i sicrhau bod Cymru yn cyflawni targedau newid hinsawdd uchelgeisiol – her fyd-eang sy'n effeithio ar fenywod yn anghymesur.

## SWYDDI A CHYFLOG CYFARTAL AR GYFER MENYWOD

Mae menywod yn dal i fod â'r mwyafrif o swyddi â chyflog isel yng Nghymru, ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau. Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a dyfeisio fframwaith ar gyfer monitro gwaith gweddus i fenywod.

## EFFAITH TRETHIANT A CHYLLIDEBAU AR FENYWOD

Nid trethiant niwtral o ran y rhywiau yw'r dull cywir – mae angen ymagwedd gadarnhaol ar sail rhyw. Dylai Llywodraeth Cymru wella ei phroses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â chyflwyno cyllidebu ar sail rhyw fel blaenoriaeth.